



Ysgolion Arweiniol Creadigol - Galwad am Ymarferwyr Creadigol yn Ysgol Gynradd Parc y Bont, Llanddaniel Fab, Ynys Môn.

Ffocws y Prosiect

Drwy ddylunio ac archwilio syniadau ar gyfer **man dysgu creadigol awyr agored**, a allwn ni wella'r sgiliau rhifedd a llafaredd ymhlith disgyblion blwyddyn 5 a 6?

Nod y prosiect:

Mae 25 o ddisgyblion brwdfrydig ym mlwyddyn 5 a 6, sy'n edrych ymlaen yn fawr at eu prosiect creadigol. Mae'r ysgol am gynnal ffocws ar **rifedd a llafaredd**, tra hefyd yn ceisio magu hyder. Maent yn awyddus i archwilio syniadau ym maes daearyddiaeth, gwyddoniaeth, astudiaethau amgylcheddol a TgCh, mewn ffordd hwyliog, greadigol.

Syniad:

Ar hyn o bryd, mae rhan o'r maes chwarae/coetir yn yr ysgol wedi gordyfu a ddim yn cael ei ddefnyddio. Hoffai'r disgyblion ei drawsnewid i mewn i le hwyliog ar gyfer chwarae creadigol, gan ddod â syniadau o amgylch thema 'natur.' Rydym yn chwilio am ymarferydd i helpu i ddylunio'r gofod ac i helpu'r disgyblion i feddwl yn greadigol, gan ganolbwyntio ar **rifedd**. Rydym hefyd eisiau ymarferydd arall i ddatblygu sgiliau **llafaredd** y disgyblion trwy ddyfeisio straeon/gemau/perfformiadau fel ymateb i'r gofod creadigol.

Yr hyn yr ydym yn chwilio amdano:

Rydym yn chwilio am **2 ymarferydd**. Rydym yn edrych am o leiaf un ymarferydd gyda sgiliau/diddordeb mewn **coedwigaeth, gwaith coed, yr amgylchedd, natur, dysgu awyr agored, bywyd gwyllt** yn ogystal ag un ymarferydd a all helpu i ddatblygu hyder a llafaredd trwy **ddrama/adrodd straeon/ysgrifennu/perfformiad**, fel ymateb i'r gofod dysgu creadigol awyr

agored. Mae'r gallu i gyfathrebu yn y **Gymraeg yn ddymunol**. Anogir dysgwyr Cymraeg i ymgeisio. Mae croeso i bartneriaethau ymarferwyr ymgeisio hefyd.

Y Gwaith:

Rhagwelir y bydd y ddau ymarferwr yn gweithio gyda'r disgyblion yn wythnosol, am o leiaf **7 sesiwn lawn am £250 y diwrnod** (Mis Ionawr i Fis Fawrth) gydag ychydig o gyllideb ar gyfer deunyddiau. Bydd amser hefyd wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith cynllunio a gwerthuso.

I Wneud Cais:

E-bostiwch lythyr eglurhaol sy'n gynnwys

- Pam mae'r prosiect hwn yn apelio atoch chi
- Pa sgiliau/nodweddion y gallech ddod i'r prosiect
- Amlinellwch unrhyw brofiad perthnasol
- Linc i unrhyw waith ar-lein
- CV

Dyddiad cau: **Hanner nos, Hydref 26ain, 2018**

Cynhelir cyfweiliadau ar: **7fed o Dachwedd, 2018**

Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus, oni bai eu bod wedi'u cwblhau o'r blaen, fod yn fodlon ac ar gael i fynychu rhaglen hyfforddi 2 ddiwrnod (heb ei dalu) ar naill ai Tachwedd 21/22 neu 23/24 yn Venue Cymru, Llandudno.

Bydd angen i chi gael gwiriad DBS a bod gydag Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio, cysylltwch â:

Sera Owen (Asiant Creadigol)

Email: serasongs.official@gmail.com



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales